

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held
at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 11eg Gorffennaf,
2017 at 10.00 am**

PRESENT: County Councillor M.Groucutt (Chairman)
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: L.Brown, M.Lane, M. Powell, J.Watkins,
S. Woodhouse, R. Harris, V. Smith and
M Fowler (Parent Governor Representative)

OFFICERS IN ATTENDANCE:

Will Mclean	Chief Officer for Children and Young People
Matthew Gatehouse	Head of Policy and Governance
Jane Rodgers	Safeguarding Service Manager
Sian Schofield	Management Information Officer
Nikki Wellington	Finance Manager
Hazel Ilett	Scrutiny Manager
Richard Williams	Democratic Services Officer

APOLOGIES:

Councillors D. Jones, L.Jones, T.Thomas and
K Plow (Association of School Governors)

1. Datganiadau o Fuddiant

Ni wnaed unrhyw ddatganiad o fuddiant.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd.

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc dyddiedig 22^{ain} Mehefin 2017 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

4. Adroddiad perfformiad 2016/17.

Cyd-destun:

Craffu'r wybodaeth ar berfformiad 2016/17 sydd dan gyloch gwaith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, mae hyn yn cynnwys:

- Adrodd nôl ar ba mor dda y perfformiodd yr Awdurdod yn erbyn yr amcanion a osododd y Cyngor blaenorol ar gyfer 2016/17.
- Gwybodaeth o'r modd y perfformiodd yr Awdurdod yn erbyn ystod o fesurau a osodwyd yn genedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a ddefnyddir gan bob Cyngor yng Nghymru.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 11eg Gorffennaf, 2017 at 10.00 am

Materion Allweddol:

Mae gan y Cyngor ar hyn o bryd fframwaith perfformiad ac o'i fewn mae'r Awdurdod yn trosi'i weledigaeth – *adeiladu cymunedau cynaliadwy a chadarn* – i mewn i weithredu a sicrhau bod pawb yn tynnu yn yr un cyfeiriad i gyflawni canlyniadau real a gweladwy.

Dros y blynyddoedd i ddod mae ffurf y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n debygol o newid yn sylweddol dan ddylanwad dau ddarn arwyddocaol o ddeddfwriaeth Gymreig, Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ynghyd â phwysau ariannol, newidiadau demograffig, newidiadau mewn anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid a newidiadau mewn rheoliadau a pholisi. Mae angen i wasanaethau barhau i feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau, ceisio osgoi problemau cyn iddynt godi a chymryd agwedd fwy cydgysylltiedig.

Mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi cwblhau dau asesiad sylweddol o angen o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon. Mae'r wybodaeth hon wedi darparu sail tystiolaeth lawer dyfnach o lesiant yn y Sir ac, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, defnyddiwyd hi i gynhyrchu amcanion a datganiad y Cyngor 2017.

Mae'r gogwydd mewn ffocws yn yr amcanion llesiant yn golygu y bydd angen i weithgareddau ganolbwyntio ar heriau tymor hwy ar lefel gymunedol yn hytrach na rhai o faterion ac allbynnau'r broses fewnol y gellid dod o hyd iddynt weithiau yn ei ragflaenydd, y Cynllun Gwelliant. Wrth ddelio â heriau cymdeithasol mwy cymhleth fe gymer fwy o amser i newid y gellir ei fesur ddigwydd ac yn hwy fyth i allu tystio i'r newidiadau hynny mewn ffordd ystyrlon. Yn y tymor byr fe ddeil cerrig milltir y gellir eu defnyddio i olrhain siwrnai welliant yr Awdurdod. Caiff hon ei chefnogi gan ystod o adroddiadau perfformiad y gall pwyllgor dethol wneud cais amdanynt fel rhan o'i raglen waith ac adolygir strwythur yr adroddiadau perfformiad a dderbyniwyd gan y pwyllgor i adlewyrchu'r pwyslais hwn.

Mae Atodiad 2 o'r adroddiad yn amlinellu'r camau gweithredu a'r mesurau perfformiad a gymeradwywyd gan y Cyngor ym Mai 2016 fel rhan o'r Cynllun Gwelliant. Ynghyd â chael eu cyflwyno i'r pwyllgorau dethol cynhwysir yr amcanion ochr yn ochr â gwerthusiadau pellach o berfformiad yn 2016/17 a gaiff eu hadrodd i'r Cyngor a'u cyhoeddi erbyn mis Hydref 2017. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar gynlluniau i ddiddymu Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 sy'n golygu ei bod yn debyg mai hwn fydd y cynllun terfynol a'r adroddiad yn y diwyg hwn.

Mae Atodiad 3 o'r adroddiad yn darparu cerdyn adroddiad ar berfformiad yn 2016/17. Mae hwn yn cyflwyno data o'r fframwaith mesur newydd a gyflwynwyd yn 2016/17 fel rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac mae'n ei osod o fewn cyd-destun gofynion y ddeddf a chyfraniad i amcanion y Cyngor. Mae'r mesurau perfformiad yn wead o ddata meintiol a data ansoddol a gasglwyd drwy holiaduron i blant a rhieni ynghylch eu profiad o'r gwasanaethau cymdeithasol ac a oedd y profiad hwn wedi gwella'u llesiant. Gosodwyd targedau ar gyfer 2016/17 lle'r oedd hynny'n ddichonadwy a chynhwyswyd targedau ar gyfer 2017/18 lle maent ar gael ac yn berthnasol, helaethir y rhain pan fydd data awdurdodau lleol cymharol ar gael yn nhymor yr hydref 2017.

Mae gweithgaredd sy'n cyfrannu at gyflawni rhai o'r amcanion yn torri ar draws cylchoedd gwaith pwyllgorau dethol a chafodd y rhain eu hadrodd i'r pwyllgorau perthnasol eraill hefyd.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 11eg Gorffennaf, 2017 at 10.00 am

Craffu Aelodau:

- Nodwyd bod rhai rhieni'n dewis peidio â derbyn darpariaeth prydau ysgol am ddim i'w plant ond yn hytrach yn cymryd credyd cynhwysol. Mynegwyd pryder y gallai hyn effeithio ar y ffigurau prydau ysgol am ddim parthed cyrhaeddiad. Hysbyswyd Aelodau'r Pwyllgor Dethol bod y ffigurau ar gyfer cyrhaeddiad yn cynnwys y myfyrwyr hynny a oedd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac nid yn unig ar gyfer y myfyrwyr hynny a oedd yn dewis derbyn prydau ysgol am ddim.
- Mae patrwm yn ymddangos sef bod pobl yn gwneud dewisiadau ynghylch y budd-daliadau a dderbyniant a allai eu heithrio rhag derbyn prydau ysgol, yn ddibynnol ar ba lwybr y cymerant. Edrychir ar y mater hwn ar y cyd ar draws rhanbarth Gwent i ddeall y mater hwn yn well.
- Caiff nifer y plant sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim effaith ar yr ysgolion mewn perthynas â grant datblygu disgyblion. Mae po isaf y ganran o blant mewn ysgol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn newid â pha ysgol mae'r awdurdod yn cymharu'r ysgol honno.
- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch targedau perfformiad, nodwyd bod y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) yn gweithio'n agos gydag ysgolion mewn perthynas â gosod targedau ac mae'n edrych ar gyrhaeddiad disgyblion unigol posib. Felly, mae ynghylch gosod targedau sy'n realistig ond hefyd yn mwyafu gallu'r disgyblion hynny.
- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch y dirywiad yn nangosydd perfformiad y Cyfnod Sylfaen, nodwyd bod yna ychydig o lithro nôl. Fodd bynnag, hysbyswyd y Pwyllgor bod yr Awdurdod yn cyflawni ar y lefel uchaf yng Nghymru yn nhermau'r Cyfnod Sylfaen sy'n cyfateb efallai i un neu ddau blentyn heb gyflawni'r lefel ddisgwyliedig deilliant 5. Bydd un plentyn ag anghenion addysgol arbennig mewn dosbarth yn cael effaith ar y dangosydd perfformiad. Ar hyd y flwyddyn mae swyddogion wedi bod yn siarad ag ysgolion am y Cyfnod Sylfaen mewn perthynas â'r lefel a gyflawnir. Bydd y lefel ddisgwyliedig +1 yn cynnwys y gwelliannau y mae'r ysgolion yn eu gwneud yn y Cyfnod Sylfaen. Dynodir y gwelliannau hyn yn adroddiad y Prif Swyddog a dderbynnir gan y Pwyllgor Dethol yn hwyrach yn y flwyddyn.
- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch y gostyngiad yn niferoedd y staff addysgu, nodwyd bod ysgolion wedi bod dan bwysau ariannol yn y blynyddoedd diweddar a bod yn rhaid i ysgolion wneud rhai penderfyniadau anodd ynghylch eu strwythurau staffio. Lle mae plant gydag anghenion addysgol arbennig yn cael eu cadw o fewn y Sir caiff hyn ei gydnabod a'i gyllido yn unol â hynny. Nid yw'r gefnogaeth ar gyfer y plant hynny sydd ei hangen yn cael ei thyngu mewn ysgolion prif ffrwd.
- Nodwyd bod nifer y datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) wedi gostwng yng ngoleuni gweithredu Cymorth Gweithredu Adnoddau Ychwanegol Ysgol (CGAYY). Fel mae Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn gwneud ei ffordd drwy'r Cynulliad Cenedlaethol bydd hyn yn arwain at ddiwedd Datganiadau a Chymorth Gweithredu Adnoddau Ychwanegol Ysgolion

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 11eg Gorffennaf, 2017 at 10.00 am

ac fe fydd Cynlluniau Datblygu Disgyblion i bob plentyn ag ADY. Yn nhermau lle mae'r Awdurdod nawr, mae cynnydd sylweddol mewn ceisiadau am ddatganiadau a Chymorth Gweithredu Adnoddau Ychwanegol Ysgolion o ysgolion cyn y newid mewn deddfwriaeth.

- Bydd adroddiadau'r dyfodol yn darparu'r union ffigurau ochr yn ochr â gwerthoedd canrannol.
- Nid yw canlyniadau Prydau Ysgol am Ddim lle byddai'r Awdurdod yn disgwyl iddynt fod a chaiff ysgolion eu herio fel bod yr ysgolion yn gwybod lle mae'r disgyblion Prydau Ysgol am Ddim yn eu datblygiad a'r hyn sydd ei angen arnynt yn nhermau mwy o gefnogaeth i gyrraedd y lefelau disgwylidig.
- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch nifer y staff asiantaeth sy'n gweithio mewn gwasanaethau plant, nodwyd mai'r diben yw cael gweithlu parhaol a chadarn a sicrhau y penodir y person cywir. Nodwyd bod y targed o gael tri staff asiantaeth yn gweithio i'r Awdurdod yn uchelgeisiol gan fod llawer o gystadleuaeth i ddenu gweithwyr cymdeithasol. Fodd bynnag, fe wnaed cynnydd..
- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch amddiffyn plant nodwyd, mewn cymhariaeth ag awdurdodau lleol eraill, bod ffigurau amddiffyn plant yn isel o fewn Sir Fynwy a'u bod o fewn lefelau targed yr Awdurdod.

Casgliad y Pwyllgor

- Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor.

Penderfynasom dderbyn yr adroddiad gan nodi'i gynnwys.

5. I benodi cynrychiolydd o blant a phobl ifanc Mae pobl yn dewis Pwyllgor Dethol i eistedd ar y fforwm cyllideb ysgolion.

Penderfynasom benodi'r Cynghorydd Sir M. Groucutt i gynrychioli'r Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc ar Fforwm Cyllideb Ysgolion.

6. Adroddiad rhaglen waith.

Cyd-destun:

Mae angen 'agwedd wedi'i chynllunio' at Raglennu Blaenraglen Craffu er mwyn mwyafu effeithioldeb a gwerth ychwanegol gweithgarwch craffu, gan sicrhau y canolbwyntir ar bynciau o'r flaenoriaeth fwyaf i'r Cyngor a'r rheiny sy'n adlewyrchu'r diddordeb cyhoeddus.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 11eg Gorffennaf, 2017 at 10.00 am

Materion Allweddol:

Mae cyfarfodydd trafod rhaglenni gwaith wedi digwydd rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Dethol a'r prif swyddogion perthnasol ar gyfer addysg a gwasanaethau cymdeithasol a thynnwyd sylw at y pynciau canlynol y gallai fod angen eu craffu.

- Rhaglen Welliant Gwasanaethau Plant ~ maes gweithlu, Llety Pobl Ifanc, Anghenion Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal, Fframwaith Maethu Cenedlaethol.
- Gwasanaeth Integredig Rhanbarthol Awtistiaeth .
- Strategaeth Rhieni Corfforaethol.
- Pwysau Cyllideb o fewn gwasanaethau.
- Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.
- Cyflawni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.
- Trafodaeth gyda Fforwm Ieuentid 'Engage 2 Change' ar eu blaenoriaethau.
- Diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Cyrhaeddiad Ysgol.

Craffu Aelodau:

Dynodwyd y pynciau canlynol gan Aelodau'r Pwyllgor Dethol ar gyfer craffu:

- Diweddariad ar yr adroddiad Dyfodol Llwyddiannus
- Diweddariad ar gynnydd ysgolion.
- Iechyd Meddwl Plant / gwasanaeth cynghori, gordewdra mewn Plant ac anorecsia – Dyma rai o'r pynciau gaiff eu cyflwyno i'r Pwyllgor Dethol drwy gyfrwng yr adroddiad ar Lesiant Plant.
- Gofalwyr Ifanc a'r Cyngor Ieuentid.
- Gofal a chynllunio amlasiantaethol mewn perthynas â'r gefnogaeth a roddir i ffoaduriaid Syria, yn enwedig i'r plant sydd wedi symud i mewn i Sir Fynwy. Mae'n bosibl ymgymryd â rhyw fath o waith ar y cyd gyda Phwyllgor Dethol Cymunedau Cadarn mewn perthynas â'r mater hwn..

Dynodwyd y pynciau canlynol gan y Prif Swyddog ar gyfer Plant a Phobl Ifanc:

Cofnodi Cyffredinol:

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 11eg Gorffennaf, 2017 at 10.00 am

- Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) - Adolygiad a darpariaeth / Mesur ADY / Parodrwydd a hyfforddiant.
- Ysgolion – dangosyddion ansawdd o fframwaith newydd arolygu / EIB a Monitro Ymyrraeth.
- Perfformiad – canlyniadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol / grwpiau / presenoldeb / eithrio.
- Pwysau.
- Adroddiadau Hunanwerthuso (AH) diweddariadau ar bwyntiau cytûn.
- Diweddariadau cynhwysiant – llesiant / agweddau at ddysgu / llais disgybl.
- Nas cynhelir / blynyddoedd Cynnar – darpariaeth / canlyniadau / cynnig gofal plant.
- Categoriadau Cenedlaethol / canlyniadau Estyn / Cynnydd tuag at fynd i'r afael ag argymhellion.
- Darpariaeth addysg ôl-16 / ymgysylltu a datblygiad.

Diweddariad blynyddol:

- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).
- Archwiliad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.
- Aseiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Seminar Aelodau:

- Fframwaith newydd Estyn.

Ychwanegol:

- Grŵp Cyfeirio Allanol.

Dynodwyd y pynciau canlynol gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant:

- Diweddariad ar y Cynllun Gwelliant ar gyfer Gwasanaethau Plant.

Casgliad y Pwyllgor

- Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau'r Pwyllgor Dethol a'r swyddogion am gyflwyno'r pynciau i'w hystyried gan y Pwyllgor Dethol.

Penderfynasom fabwysiadu'r broses a amlinellir yn yr adroddiad i ddatblygu

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 11eg Gorffennaf, 2017 at 10.00 am

rhaglen waith y Pwyllgor Dethol, gan ystyried:

- Y cyfrifoldeb i graffu perfformiad a pheryglon allweddol er mwyn darparu heriau effeithiol i Fwrdd Gweithredol y Cyngor;
- Y ddyletswydd i graffu gwasanaethau cyhoeddus ehangach a ddarperir ar gyfer preswylwyr Sir Fynwy o ganlyniad i'r pwerau a roddir iddynt drwy'r Mesur Llywodraeth Leol;
- Cynhwysiant / adnoddau wrth flaenoriaethu pynciau i'w craffu a chytuno'u cynnwys yn y rhaglen waith.

7. Rhestr o gamau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol.

Derbyn a nodi rhestr y camau gweithredu a gafodd eu cwblhau yn codi o gyfarfod y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd ar 22^{ain} Mehefin 2017.

8. Rhaglen mae plant a phobl ifanc Pwyllgor Dethol ymlaen yn ei waith.

Derbyn a nodi blaenraglen waith y Pwyllgor Dethol.

9. Cyngor a chabinet busnes-y blaengynllun.

Derbyn a nodi Blaenraglen Waith Busnes y Cyngor a'r Cabinet a nodi'i chynnwys.

10. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Brynbuga, ar ddydd Iau 14^{eg} Medi 2017 am 10.00am.

The meeting ended at 11.50 am.